CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION CYFARFOD MISOL 26ain O DACHWEDD 2009 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS - LLANBEDR PONT STEFFAN

CYFLWYNIAD: **Cyngor ar Bopeth**: Derbyniwyd cyflwyniad gan Dr Clive King, Cadeirydd Dors-Dro Sefydliad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth (CAB) Aberystwyth a'r Cylch. Y mae'r CAB yn estyn llaw i bobl i ddatrys eu problemau cyfreithiol, ariannol a materion eraill drwy gynnig cyngor rhad ac am ddim, annibynnol, cyfrinachol a diduedd i bawb yn ymwneud â'u hawliau a'u dyletswyddau. Y mae'r mudiad yn cydnabod amrywioldeb, hybu cydraddoldeb ac yn herio anffafriaeth. Yn ogystal â sesiynau galw-mewn, y mae gwasanaeth ar gael yn cynnig cyngor ac eiriolaeth i'r rai hynny sy'n dioddef o boen y meddwl ac yn ddioddefwyr camdrin cyffuriau ac alcohol.
Y mae pob CAB yn elusen gofrestredig sy'n dibynnu ar gynghorwyr i ddarparu'r gwasanaeth hanfodol ar gyfer cymunedau. Y mae'r mwyafrif o'r gynghorwyr yn wirfoddolwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant. Y mae Meddygfa Gwaith-Allanol CAB ar gael bob bore Llun o 9.30am tan 12.00 Hanner Dydd yng Nghanolfan Iechyd Llanbedr PS. Y mae digon o arian ar gael i ariannu dau gynghorydd. Y mae gwasanaethau yn cael eu cynnig yn Aberaeron, Tregaron ac Aberteifi.

Soniodd Dr King nad oedd camau ar y gweill i gau drysau'r pencadlys CAB yn Aberystwyth yng ngwyneb herion ariannol y llynedd. Bu i'r sefyllfa waethygu oherwydd absenoldeb Rheolwr yn ystod yr un cyfnod. Apwyntiwyd Sue Hurds i'r swydd hon ym Medi 2009 ac yr oedd digon o arian ar gael ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â'r gwasanaeth. Mawr obeithir y bydd y Cyngor Tref yn cyfrannu'n ariannol i'r lefel a wnaethpwyd yn ystod blynyddoedd cynt a bydd perthynas mwy clos yn cael ei sefydlu rhwng y ddau sefydliad. Gellir hyn gael ei gyflawni'n rhannol drwy apwyntio cynghorydd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Roedd problemau wedi codi'n ystod y gorffennol pan yn ceisio cysylltu â'r CAB a derbyn apwyntiadau. Roedd Dr King o'r farn y dylid sefydlu *Cytundeb Lefel Gwasanaeth.*

Darparwyd yr *Ystatedgau Ionawr-Medi 2009 CAB Llanbedr PS/Tregaron/Aberaeron a'r Adroddiad Canol y Flwyddyn Polisi Cymdeithasol Mehefin 2009. (Ar gael yn Llyfrgell y Dref neu d/l'r Clerc)*

Penderfynwyd enwebu cynghorydd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr CAB yn ystod cyfarfod mis Ionawr y Cyngor Tref.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng. Robert Phillips (Is-Gadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton, Andrew Carter
Elsie Dafis, Greg Evans
Margaret Davies-Evans, Kistiah Ramaya &
Cyng. Tref a Sirol Robert (Hag) Harris
Mr Nathan Yates – Gohebydd y Wasg y Cambrian News
Mr Carl Stringer – Gohebydd y Wasg yn gweithio ar liwt ei hun

1. CROESO'R CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod.
Boed i'r Cyng. Hag Harris arwain aelodau mewn gweddi.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Tref John Davies, Lynda Mason-George, Chris Thomas, Dorothy Williams, Derek Wilson, y Cynghorydd Sirol Ivor Williams ac Arolygydd yr Heddlu Paul Bonning.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Dim.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Ymysg y materion a drafodwyd oedd y canlynol:

4.1 Ardal Gwahardd Alcohol Arfaethedig(AGAA) ar gyfer Llambed

Y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cais ar y cyd rhwng Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno Gorchymyn Gwahardd Yfed Alcohol Mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig (Llanbedr Pont Steffan) 2009 o dan Adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001.

Boed i'r cyfnod ymgynghori yn Llambed ddirwyn i ben ar y 30ain o Fedi 2009. Mae'r CSC yn asesu'r ymatebion ar hyn o bryd ac yn ysgrifennu adroddiad i'w hystyried yn deillio o'r ymatebion. Roedd aelodau wedi gobeithio y byddai'r Ardal Gwahardd Alcohol mewn lle, ar ddechrau'r flwyddyn 2010.

4.2 Cynllun Plismona Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

Bob blwyddyn y mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynhyrchu Cynllun Plismona treigl 3 blynedd sy'n gosod yr amcanion arweiniol ar gyfer plismona ardal Dyfed-Powys. Nodwyd y meysydd canlynol yn flaenoriaethau ar gyfer plismona'r ardal sef *Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; Troseddau'n ymwneud â chyffuriau*; a *Gweledd yr Heddlu.* Hefyd i gyfleu dymuniad y Cyngor Tref bod yr Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer Llanbedr PS yn cael ei chyflwyno cyn gynted â bo modd.

4.3 Cyfarfod Ymgynghorol â'r Awdurdod yr Heddlu Dyfed-Powys: Nos Fawrth 1af Rhagfyr 2009 am 7pm, yn Swyddfa y Cyngor Sir ym Mhenmorfa, Aberaeron.

4.4 Derbyniwyd llythyr gan y Comander Rhanbarthol newydd ei apwyntio ar gyfer Ceredigion sef Mr Simon Powell. Er mwyn cyflwyno'i hun yn swyddogol gofynnodd, tybed a fyddai'n bosibl iddo fynychu cyfarfod y Cyngor Tref. *Penderfynwyd ei wahodd i gyfarfod mis Chwefror.*

4.5 Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2010: Ein Cymuned – Eich Barn: Y Maer a'r Dirprwy-Faer i gwblhau'r ffurflen erbyn Chwefror 2010.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 29AIN O HYDREF

Derbyniwyd cofnodion mis Hydref fel rhai cywir ar wahân i un camgymeriad. Darllenwyd y weddi agoriadol gan y Cyng. Derek Wilson ac nid y Gyng. Margaret Davies-Evans, fel y nodwyd yn y cofnodion.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Ystyriaeth i'r Rhodd mewn Ewyllys: daeth 4 syniad i law gan y Cynghorwyr Mason-George; G.Evans, H.Harris a C.Thomas.

Taer erfynir ar aelodau sydd eisiau cyflwyno syniadau, ond heb wedi gwneud hynny, cyn belled, i'w hanfon yn ysgrifenedig at y Clerc erbyn yr 28ain o Ionawr, y dyddiad cau derbyn awgrymiadau.

Clustnodir sylw pellach i'r holl syniadau yn ystod cyfarfod mis Ionawr y Cyngor Tref.

6.2 **Deiseb Parc-yr-Orsedd:** Bu i'r Cyng.Thomas gyflwyno adroddiad gweithredu ar gyfer y cyngor tref i gwrdd â gofynion y ddeiseb Medi 2009. Dosbarthwyd Adroddiad yr Arolwg Blynyddol *Digley Associates*, hefyd, ymysg aeoldau.
Penderfyniad
I ofyn i Mr Steve Edwards i ymdrin â'r materion yr amlygwyd yn y ddau adroddiad.

6.3 **Safle ar y We Newydd**; Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen gan CWN Design, Llanfair Clydogau. *Adroddodd y Cyng. Phillips y byddai'r wefan yn barod yn ystod yr wythnosau nesaf.*

6.4 **Cyfarfod Ymgynghorol gan GSC 16.11.2009; Neuadd Fictoria**: Penderfynwyd diolch i gynrychiolwyr y cyngor sir am eu cymorth yn ystod y cyfarfod.

6.5 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** y mae trefniadau ar y gweill gan Mr Kevin Jones, Garej Forge, Cwmann i drwsio'r hysbysfwrdd am swm o £549.

6.6 **Biniau Ail-gylchu ar gyfer y dref:**– y mae'r ddau fin wedi eu harchebu gan Rachel Mills, Cydlynydd Trefi Taclus – un i'w leoli ar Stryd y Farchnad a'r llall ym Mharc-yr-Orsedd. Bydd y Cyngor Tref yn cwrdd â'r gost o un bin a'r *Cynllun Trefi Taclus* yn talu am y llall. *Disgwylir clywed am ddatblygiadau pellach gan y cyngor sir.*

6.7 **2 Arwydd stryd -Parc St. Germain-sur-Moine**: derbyniwyd yr arwyddion a archebwyd. Penderfynwyd gofyn i GSC tybed a fyddai'n bosibl iddynt arddangos yr arwyddion yn y parc ar ran y Cyngor Tref. Os na fydd hyn yn bosibl bydd y cyngor tref yn ymgymryd â'r trefniadau angenrheidiol.

6.8 **Clos Glyndŵr:** Bydd yr arwydd yn datgan y geiriau *Clos Glyndŵr* yn cael ei brynu gan y Cyngor Sir a'i osod ar eiddo Mr Simon Anderson. Y mae angen caniatâd o leiaf 3 o'r 5 deiliaid cyn medru bwrw ymlaen â'r cais. Bu i'r Clerc adrodd ei bod wedi anfon llythyr at y 4 deiliaid (Y mae Mr Anderson wedi cytuno eisoes) ac amlen hunan-gyfeiriad â stamp, ar ddechrau mis Hydref. Derbyniwyd un ymateb gan Mr Jamie McCormack. *Cytunodd y Cyng. Phillips i atgofio'r deiliaid, mewn ymgais i fwrw ymlaen â'r cais.*

6.9 Problemau Trafnidiaeth Llambed

6.9.1 Maes Parcio'r Rookery
Adroddodd y Cyng. Harris iddo siarad â Mr Lyndon Griffiths a byddai'r Cyngor Sir yn ymgymryd â newidiadau i'r fynedfa, maes o law er mwyn sicrhau digon o le ar gyfer bysiau a loriau trwm hir a llwythog. *Nid yw'r trefniant hwn wedi ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan GSC*. Rhaid talu am barcio yn y maes-parcio'r Rookery erbyn hyn.

6.9.2 Maes Parcio'r Cwmin
Mae'r CT wedi mynegi ei gefnogaeth i gais y CSC i gyflwyno mesuriadau yn ymwneud â pharcio ar y Cwmin h.y. parcio am gyfnod cyfyngedig ar gyfer holl gerbydau heb godi tâl. Trafodwyd y mater yn ystod y cyfarfod ymgynghorol y cyngor sir o'r 16eg o Dachwedd (Croes-gyfeiriad 6.4) ***Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.*** Y mae statws Glas y Pentref/Tir Cyffredin y Cwmins yn rhwystr cyfreithiol y bydd angen ei gorestyn cyn medru symud y mater yn ei flaen. Atgofiwyd aelodau'r cyngor sir am y Cais am Orchymyn Rheoli Traffig o flaen yr 8 tŷ Rhes Harford. ***Yn disgwyl clywed oddi wrthynt.***

6.9.3 Arolwg Traffig Llawn
"Byddai arolwg traffig llawn yn golygu'r defnydd o adnoddau helaeth ac nid yw'n bosibl i'r Awdurdod i gefnogi'r cais ar hyn o bryd." oedd yr ateb a dderbyniwyd gan y cyngor sir yn yr haf 2009. Cyflwynwyd ail gais at y Cyngor Sir: ***Yn disgwyl ateb gan y CSC parthed yr ail gais.***

6.9.4 Cais oddi wrth un o drigolion Heol y Gogledd, Llambed (Awst 2009)i osod croesfan ar gyfer cerddwyr ar Heol y Gogledd oherwydd rhesymau diogelwch. Cytunwyd i drosglwyddo'r llythyr at sylw'r Cyngor Sir yn mynegi bod y CT yn hollol gefnogol i unrhyw fesuriadau sydd o gymorth i hybu diogelwch cerddwyr ar Stryd y Gogledd. Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i leoli croesfan ar gyfer troedwyr ar yr heol. Y mae pob lleoliad a nodir yn cael ei flaenoriaethu drwy edrych ar hanes gwrthdrawiadau yn y lleoliad dan sylw ac ar anafiadau personol a achosir gan y gwrthdrawiadau hynny. Bydd yr wybodaeth honno wedi ei seilio ar wybodaeth ffurfiol a ddaw oddi wrth Heddlu Dyfed-Powys.

Hefyd, fel rhan o'r broses hon, fe ystyrir y lleoliad, geometreg y ffordd, y llif traffig, ymddygiad defnyddwyr y ffordd a phresenoldeb cerddwyr a seiclwyr sy'n fwy agored i niwed. Gall y broses a ddefnyddir i asesu ceisiadau am rai mathau o fesurau rheoli traffig fod yn hir a chymhleth.

Bydd yr asesiad yn ystyried beth yw arwyddocâd y broblem mewn lleoliad penodol ac yn nodi'r camau cywiro priodol. Hefyd, bydd angen sicrhau'r arian a'r awdurdod angenrheidiol i wneud y gwaith. O bryd i'w gilydd, gall yr hyn sy'n ymddangos fel cynigion call a theilwng ar yr olwg gyntaf syrthio'n fyr o feini prawf yr asesiad. O ganlyniad gall yr amser a gymerir i ymateb i'r cais fod yn eithaf hir. (ateb gan GSC Medi 2009) Roedd aelodau'n parhau i fod rhwng dau feddwl ynglŷn â diogelwch cerddwyr ar Heol y Gogledd a phenderfynwyd gwneud cais arall am asesiad o'r ardal gyda'r bwriad o osod croesfan ar gyfer cerddwyr mewn lle neu o leiaf i gyflwyno ryw fath o fesur rheoli traffig ar Heol y Gogledd. ***Yn disgwyl clywed oddi wrth y CSC ynglŷn â'r ail gais ac fe drafodwyd y mater yn ystod y cyfarfod ymgynghorol o'r 16eg o Dachwedd***

6.9.5 Parcio Heol-y-Bryn: mae problemau'n bodoli yng nghyffiniau Heol Y Bryn ac yn enwedig gyferbyn y cyffordd Teras Cambrian/Heol y Bryn. Pederfynwyd gofyn i'r cyngor sir tybed a fyddai'n bosibl i leoli llinellau melyn yn yr ardal hon i ganiatau cerbydau i droi ac i symud.
Yn disgwyl ateb gan GSC.

6.9.6 Y mae Ymgynghoriad Distewi Traffig ar gyfer Mountwalk yn mynd yn ei flaen gan GSC. Adroddodd y Cyng. Harris iddo gysylltu â thrigolion Mountwalk i ofyn caniatâd i osod golau arbennig ar eu heiddo. *Yn disgwyl clywed am ddatblygiadau gan GSC.*

6.10 Arwydd Tref Newydd ar gyfer Ffîn Sir Gâr: *Yn disgwyl datblygiadau pellach gan GSC.* Derbyniwyd anfoneb gan y CSC am y 4 arwydd. Penderfynwyd i ohirio'r tâl nes bod y gwaith wedi ei gwblhau.

6.11 Cais y Cyngor Tref i gynnal cyfarfodydd mewn ysgol leol, yn rhad ac am ddim**:** *yn dal i ddisgwyl ateb gan GSC*. Penderfynwyd i adael y mater ar y bwrdd, ac i barhau â'r trefniant o gwrdd yn y safle presennol, am y dyfodol agos.

6.12 Siarter Tosturiol Cymorth Anifeiliaid: 8 cam gweithredol i helpu anifeiliaid, pobl a'r planed: y mae Cymorth i Anifeiliaid (Animal Aid) yn datguddio ac yn ymgyrchu'n heddychlon yn erbyn pob math o gamdriniaeth i anifeiliaid

ac yn hybu ffordd o fyw heb-greulondeb. *Cytunwyd y byddai'r Maer a'r Dirprwy-Faer yn ystyried y siarter ymhellach ac yn gwneud argymhellion yn ystod cyfarfod misol nesaf y cyngor tref.*

6.13 **Bu i'r Clerc atgofio aelodau** bod 3 llyfryn wedi eu dosbarthu ymysg aelodau megis, *Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2008-09*: *Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol. Adroddiad Ombwdsman 2008-09* a *Chymuned ar y Cyd: Meithrin Cydberthynas a Siarteri ar gyfer Awdurdodau Unedol a Chynghorau Cymuned a Thref-Canllawiau Terfynol: Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol.*

6.14 **Gwnaed trefniadau ar gyfer Te'r Faeres, Ieuanc Mewn Ysbryd, a gynhelir** ar brynhawn Ddydd Mercher, yr 2ail Rhagfyr yn Neuadd Fictoria, Llambed.

6.15 **Cyfarfu cynrychiolaeth** o'r Cyngor Tref a'r Asiant Ystadau ar safle'r Hen Swyddfa'r Post ar y 23ain o Dachwedd. Y brydles flynyddol yw £12,500. Yn ychwanegol bydd yna gostau megis treth busnes, trydan, gwres, yswiriant, gosodion a ffitiadau a'r cyfanswm oddeutu £20,000. Penderfynwyd nad oedd prydlesu'r hen swyddfa bost at ddibenion y cyngor tref yn opsiwn ariannol dilys ar hyn o bryd..

7. GOHEBIAETH

7.1 **Cynllunio Cymunedol Cydweithredol:** Llywodraeth Cynulliad Cymru: Ymgynghoriad: *penderfynwyd cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.*

7.2 **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 –** Rhan 1: Canllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub: Tachwedd 2009: er gwybodaeth.

7.3 **Cynllun Gweithredu Blynyddol 2010-2011:** Cynllun Gwella 2009-10: Awdurdod Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: er gwybodaeth.

7.4 **Ceredigion Shopmobility Symudol CBC:** 2.12.2009 Penmorfa, Aberaeron**:** er gwybodaeth.

7.5 **Ebost gan Sue Roper** yn ymholi a oedd cymhorthdal cymunedol ar gael ar gyfer y ddarpariaeth o offer chwarae i blant bach. I'w chyfeirio at y sefydliadau megis *Llygad Busnes*, a CAVO ac i'r Gyng. Mason-George, Cydlynydd y Ganolfan Deuluol Llanbedr PS.

7.6 **Ymgynghoriad ar Newid Gofod Awyr I Sefydlu Gofod Awyr Ar Wahân ar Gyfer Amgylchedd systemau Awyrennau Di-Griw Cymru**: llythyr oddi wrth Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n diolch i'r cyngor tref am ei sylwadau, sydd wedi eu nodi ac wedi eu cynnwys o fewn yr Adroddiad Adborth, y gellir ei lawrllwytho o safle ar y we y Cynulliad. Gellir dod o hyd i'r ddogfen o dan yr adran Busnes ac Economi (Ymgynhoriadau Caeëdig) ar y cyfeiriad ar y we www.wales.gov.uk/consultations o fis Rhagfyr ymlaen.

7.7 **Gohebiaeth Eraill:** er gwybodaeth yn unig.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO

8.1 Mae'r cais canlynol wedi ei DYNNU'N ÔL

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	Ymgeisydd a'r bwriad	Lleoliad
11/11/2009 Rhif y Cais: A090683	Dr D I Edwards Genau'r Glyn Stryd Newydd Llanbedr PS *Newidiadau ac estyniad i'r byngalo dormer presennol gan gynnwys newid y to presennol yn gyfangwbl. Hefyd codi garej newydd.*	Genau'r Glyn Stryd Newydd Llambed.

8.2 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	Ymgeisydd/ Safle /Bwriad	Sylwadau'r Cyngor Tref
13/11/2009 Rhif y Cais: A090764 Rheol 14 diwrnod dirprwyo swyddogaethau i aelodau penodedig 24.11.2009	Mrs Gladys Lewis Dyffryn Cae-Dash Stryd Newydd Llambed *Estyniad a heulfan ar gyfer yr uchod.*	Dim gwrthwynebiad
30.10.2009 Rhif y Cais: A090740AV Rheol 14 diwrnod – dirprwyo swyddogaethau i aelodau penodedig 10/10/2009	Food Programme Delivery Orchid Group Old Bank Building Hanover Street Manceinion *Co-op Cyf* *Stryd y Bont* *Llambed* *Arddangos 2Xarwydd fascia 1 bwrdd Bwydlen*	Dim gwrthwynebiad

8.3 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 14.10.2009 a'r Agenda y cyfarfod 11.11.09: er gwybodaeth.

8.4 Y Cais A080680: Codi estyniad a dymchwel rhan o annedd: Eryl, 61 Stryd Y Bont, Llambed. Bu i Banel Archwilio Safleoedd CSC gwrdd ar y safle i

drafod y cais ar yr 2.11.2009 am 2pm gan gynnwys y ddau gynghorydd etholedig lleol. Y Maer oedd cynrychiolydd y Cyngor Tref. Hysbyswyd y Panel y byddai'r cais yn cael effaith anffafriol iawn ar breswylfa cymydog 59 Stryd y Bont. Fel y saif, byddai'r cais yn ormesol ac yn creu twnel/effaith ffynnon rhwng y ddau dŷ, ac fel canlyniad fe gollir llawer o olau dydd naturiol ystafelloedd trigiadwy.

Roedd asiant yr ymgeisydd yn synnu bod y cais wedi cymryd cyhyd i symud yn ei flaen. Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau gan y Maer ond i ail-adrodd, nad oedd gan y cyngor tref unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

Ar ôl y cyfarfod cyhoeddus, bu'r Panel yn archwilio'r safle gan gynnwys eiddo'r cymydog. Trafodwyd y cais a rhoddwyd ystyriaeth i estyniad deulawr tebyg, cyfagos, 3 drws o safle'r ymgeisydd. Roeddynt o'r farn na fyddai'r cais yn achosi effaith anffafriol ar yr eiddo cyfagos, ac atgyfnerthwyd y penderfyniad gan fod perchennog yr eiddo heb gynnig unrhyw wrthwynebiad. Fel canlyniad, bu i'r Panel argymell yn unfrydol i gefnogi'r cais yn unol ag amodau. *Y mae'r cyngor sir wedi, erbyn hyn, caniatau'r cais. Hysbyswyd y Cyngor Tref ar y 14eg o Dachwedd 2009.*

8.5 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion – Safleoedd Posibl: Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), cynhaliwyd ymarfer ymgynghori er mwyn gofyn i'r cyhoedd a gwahanol fudiadau argymell tir y buasent yn dymuno iddo gael ei ystyried ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad yng nghyfnod y cynllun. Yn ogystal â hynny, mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi argymell safleoedd sy'n rhan o strategaethau adfywio, a darnau eraill o dir a allai fod â photensial ar gyfer datblygu. Gelwir yr holl ddarnau hyn o dir yn safleoedd posib – a bydd angen ystyried eto a fyddai'n briodol eu datblygu neu beidio. Nid yw cyflwyno'r safleoedd hyn neu'u cynnwys ar fapiau ar hyn o bryd yn dynodi y caiff y safleoedd eu cynnwys yn y CDLl terfynol. Roedd gan y Cynghorau Tref a Chymuned tan 18fed o Dachwedd 2009 i roi sylwadau ychwanegol ynghylch y safleodd yn eu hardaloedd.

Nodwyd y dylai cae Maesyderi Cyferinod S2041 gadw ei statws fel amwynder ar gyfer trigolion y dref ac ni ddylid ei ddefnyddio at ddibenion datblygu a
chodi tai. Hefyd i gadw Cae'r Bryn fel cae gwyrdd a Chae'r Coleg i barhau'n ardal hamddena.

8.6 Cynllun Datblygu Lleol Cerediigon – grwpiau Aneddiadau: Roedd y Strategaeth a Ffefrir y bu ymgynghori cyhoeddus yn ei chylch ym mis Mawrth 2009 yn gosod Strategaeth Anheddu a oedd wedi ei seilio ar Ganolfannau Gwasanaethau Trefol a gwledig, Aneddiadau Cyswllt a grwpiau Aneddiadau. Cafodd y Strategaeth hon gefnogaeth fras yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghori a hi yw Strategaeth a Ffefrir yr Awdurdod Lleol. Yn awr y mae'r Awdurdod yn ceisio barn y Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch pa aneddiadau y dylid eu cynnwys ym mhob Grŵp Aneddiadau.

I fynegi y dylai Llambed fod yng Nganolfan Gwasanaeth Trefol ar gyfer Alltyblaca, Cwmsychbant, Cwrtnewydd, Drefach, Gorsgoch a Llanwenog ac nid Llanybydder i fod yng Nghanolfan Gwasanaeth Gwledig ar gyfer y pentrefi hyn fel y crybwyllwyd yn y Grŵp Arfaethedig Fersiwn Adneuo y CDLl. Hefyd dylai'r pentref Cribyn fod yn "aneddiad cyswllt" ar gyfer Llambed hy dylai tref

Llambed fod yng Nghanolfan Gwasanaeth Trefol ar gyfer Cribyn ac ni ddylai Felinfach/Ystrad Aeron gymryd y swyddogaeth hon.

8.7 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin: Y Strategaeth Cyn-adnau a Ffefrir, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol a'r Adroddiad Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd/Cynllun Cyfyngiadau: Mae cyhoeddi'r dogfennau Cyn-Adnau hyn ar gyfer ymgynghori yn cynrychioli cam statudol pwysig wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLl yn disodli Cynllun Datblygu Unedol presennol Sir Gaerfyrddin, a bydd yn sail i'r penderfyniadau ynghylch cynllunio deunydd tir yny Sir: *nodwyd er gwybodaeth*.

9. CYLLID

9.1 Hysbyswyd gan yr Archwilwyr Allanol BDO Stoy Hayward eu bod wedi cwblhau'r Datganiad Blynyddol ar gyfer Cyngor Tref Llambed am y flwyddyn ariannol yn gorffen ar y 31ain o Fawrth 2009. Cafodd y Datganiad Blynyddol ei gyflwyno at sylw aelodau ar gyfer cymeradwyaeth. Mae'r mater canlynol wedi ei godi er mwyn helpu'r Cyngor i wella eu rheolaeth fewnol neu eu harferion gwaith. Argymhellir bod y Cyngor yn ystyried y mater ond nid oes unrhyw rwymediagaeth statudol i weithredu arno:

1. Lefel Cronfeydd Wrth Gefn

Beth yw'r mater?

Mae lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan y cyngor yn ymddangos yn uchel. Mae'r cyngor yn ceisio defnyddio arian a lleihau lefel y cronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd nesaf.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi?

Nid oes gan y cyngor y grym i gadw cronfeydd gormodol wrth gefn oni bai eu bod yn cynilo i brynu rhywbeth penodol.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r cyngor barhau i leihau lefel eu cronfeydd wrth gefn nes cyrraedd lefel mwy priodol. Nid yw lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol fel arfer yn fwy na dwy waith lefel y praesept. (oddeutu £50,000) Mae hi hefyd yn dderbyniol ar y cyfan i gadw cronfeydd uwch wrth gefn pan fydd y cyngor yn cynilo i brynu eitem cyfalaf penodol neu wariant cyffredinol a dylai'r arian wedyn gael ei gadw mewn cyfrif llog uchel.

Penderfynwyd peidio gostwng lefel y cronfeydd gan fod aelodau o'r farn y byddai angen arian ar gyfer prosiectau megis ee y Cae Maesyderi, Ardal Gwahardd Alcohol, Materion Traffig, Parc-yr-Orsedd.

ŷŷŷ

swyddogion fod yn debygol o drafod ei arian. Gall y Cyngor benderfynu nad yw'r yswiriant yn "ddigonol" ar ei gyfer, ond er mwyn cyrraedd y farn honno rhaid iddo fod wedi adolygu'r gofyniad yn flynyddol a rhaid iddo fod â sail wrthrychol ar gyfer dod i gasgliad o'r fath.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r cyngor ystyried lefel yr yswiriant a'i osod ar lefel fydd yn amddiffyn y cyngor rhag colledion dichonol. Dylai'r cyngor adolygu hyn o leiaf unwaith y flwyddyn gan y gall amgylchiadau newid drwy'r flwyddyn.

Argymhellir bod y swm yn ddigon i sicrhau'r uchafswm arian y mae'r cyngor yn ei ddal ar unrhyw un cyfnod yn ystod y flwyddyn. Nid oes raid i gyngor gael Yswiriant Gwarant Ffyddlondeb os yw'n ystyried bod dim sicrwydd yn "ddigonol" ond rhaid cael sail wrthrychol dros ddod i gasgliad o'r fath. Gall cynghorau llai, felly, benderfynu fod cost yr yswiriant hwn yn anghymesur â'r risg dan sylw. Os mai dyma'r achos, dylai'r cyngor gofnodi'r penderfyniad hwn bob blwyddyn.

Penderfynwyd codi Yswiriant Gwarant Ffyddlondeb y Cyngor Tref o £150,000 i £200,000.

9.2 **Penderfynwyd peidio â** chyfrannu at yr Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.

9.3 **Cyfraniad £100** ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol 2010.

9.4 **NSPCC** ChildLine Cymru £25.00

9.5 **Siambr Fasnach Llanbedr PS**: bydd y cyngor tref yn cwrdd â'r costau o arddangos y goleuadau Nadolig gan gynnwys y trydan, er na dderbynnir grant gan y cyngor sir eleni.

9.6 **Cyflog y Clerc** (Tachwedd) £536.70

9.7 **Golau/**Gwres/Storio Dogfennau: £20.00

9.8 **Treth Incwm** a Chyfraniadau YC: £130.80

9.9 **Hurio Neuadd San Pedr**: 29.10.2009: £26.25 (3.5awr)

9.10 **Asesiad Risg** yn ystod y flwyddyn 2009-10: dylai'r asesiad wedi ei gwblhau erbyn yr Adroddiad Cyllid o'r 14eg o Ionawr 2010. *Gwaith yn mynd yn ei flaen.*

10. IS-BWYLLGORAU

10.1 LLWYBRAU CERDDED GAN GYNNWYS PARC-YR-ORSEDD

10.1.1 Ymgynghoriad â'r Cynghorau ynghylch Tramwy a Mynediad Cyhoeddus – 14 Ebrill 2009: Ar ôl crynhoi'r ymatebion i'r ymgynhoriad, bwriedir cynnal cyfarfod peilot â chynghorau Cymuned/tref yn un o'r pedaier ardal rheoli hawliau tramwy yng Ngheredigion yn y flwyddyn newydd. Bydd hyn yn caniatau i aelod o bob cyngor Cymuned/tref yn yr ardal reoli honno i gwrdd â swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr y Fforwm i drafod materion yn ymwneud â hawlaiu tramwy a mynediad. Bydd y CSC yn cysylltu â'r cynghorau Cymuned/tref hynny sydd yn yr ardal beilot ynglŷn â'r cyfarfod yn ystod y flwyddyn newydd.

10.1.2 Penderfynwyd adrodd at sylw'r cyngor sir bod y bont bren dros yr afon Creuddyn yng nghyffiniau'r Glynhebog, Llambed wedi pydru mewn mannau a gofyn tybed a fyddai'n bosibl iddynt ei hatgyweirio.

10.2 CAMERAU TCC

10.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Hydref 2009 CSC: bu yna un cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud ag ymosodiad.
Namau yn ymwneud â'r Offer:

1. **Dyddiad adrodd y nam**: 1.10.2009: dim cyfleuster chwyddo ar un camera ond yn dal i weithio. Atgyweiriwyd ar 14.10.2009.
2. **Dyddiad adrodd y nam**: 30.10.2009: namau'n ymwneud â'r fideo o bryd i'w gilydd o Lambed i'r Ystafell Rheoli ar 3 camera ond y recorder yn dal i weithio. Atgyweiriwyd ar y 30.10.2009.

10.3 GOLEUADAU STRYD

10.3.1 Mae problemau'n dal i fodoli ar y 9 o oleuadau stryd sy'n ymestyn o'r Garej ATS i'r Ystâd Bryn Steffan. Derbyniwyd gwybodaeth gan y cyngor sir y byddai'r nam yn ymwneud â'r cebl yn cael ei atgyweirio ar ddechrau Rhagfyr 2009.

10.3.2 Adroddodd y Cyng. Carter bod rhai o'r goleuadau stryd ar Heol y Wîg heb fod yn gweithio: i adrodd at sylw'r cyngor sir.

10.4 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
Cynhaliwyd cyfarfod ar y 24ain o Dachwedd (Cofnodion ynghlwm)

10.5 PALMANTAU

10.5.1 Chwynnu o gwmpas y dref: Atgofiwyd y Cyngor Sir yn ystod y cyfarfod ymgynghorol o'r 16eg o Dachwedd, gan y Gyng. Margaret Davies-Evans o'r angen am drwsio/chwynnu o gwmpas y dref. Adroddwyd bod ardaloedd o'r dref wedi ei chwynnu/derbyn pryfleiddiad ar 2 achlysur yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd ebost gan Mr Mel Hopkins, Prif Swyddog Adeiladu ar yr 25ain o Dachwedd, yn mynegi ei fod wedi cysylltu â'r contractwr cynnal a chadw parthed Stryd San Thomas, Llys Idwal a'r ardal eistedd y Cwmin. Y mae'n ymwybodol o'r gwaith sydd angen ei gario allan a bydd yn ymgymryd â'r gwaith cynnal a chadw yn ystod y dyfodol agos.

10.5.2 Ymholodd y Cyng. Carter pryd fyddai'r bolard ar gyfer cerddwyr yn cael ei ail-osod yn ôl o dan yr arch Neuadd y Dref. I gysylltu â'r Ganolfan Gwiltiau.

10.6 Adolygiad Blynyddol yr laith Gymraeg: i'w ystyried yn ystod y dyfodol agos.

11. U.F.A.

11.1 Cyhoeddodd y Maer ddyddiad y Sioe Da Pluog wedi eu plufio a'u gosod yn barod i goginio. Cynhelir ar fore ddydd Mawrth 22ain o Ragfyr yn Neuadd Fictoria.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 9.30pm.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf:
Nos lau 14eg o Ionawr am 7.00pm yn Festri Capel Shiloh, Llanbedr PS.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)